O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1482 (Cy. 182)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r De o Bwll-glas, Sir Ddinbych) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*30 Mai 2012*
Yn dod i rym	*11 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Birkenhead (A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r De o Bwll-glas, Sir Ddinbych) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 11 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A494 i'r de o Bwll-glas yn Sir Dinbych sy'n ymestyn tua'r de o bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Fferm Pencoed hyd at bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth sy'n arwain at Nantclwyd Hall.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.